Ysgol Tryfan

POLISI ATAL RADICALEIDDIO

Ysgol Tryfan **Dyddiad y Polisi: Ebrill 2016**

CYFLWYNIAD

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd gyda'r polisïau canlynol:

- **Polisiau a Chanllawiau Diogelu y Gwasanaeth Addysg**
- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**
- **Polisi Gwrth-fwlio**
- **Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol**
- **Polisiau E-Ddiogelwch**

Y mae Ysgol Tryfan yn gwbl ymwybodol o'i chyfrifoldeb o dan y Dyletswydd Atal 2015

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/439598/prevent-duty-departmental-advice-v6.pdf

Y mae Ysgol Tryfan yn ymrwymo yn llawn i ddiogelu ac hyrwyddo lles ei disgyblion. Fel ysgol, yr ydym yn ymwybodol nad yw diogelu rhag radicaleiddio ac eithafiaeth yn ddim gwahanol i ddiogelu yn erbyn unrhyw gamdriniaeth arall.

http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf

http://gov.wales/docs/dcells/publications/110209respectcy.pdf

Y mae'n ddisgwyliad i holl staff Ysgol Tryfan ddilyn a hybu democratiaeth, gwerthoedd moesol, rheolaeth y gyfraith, rhyddid unigolyn, parch at eraill a goddefgarwch o'r rhai sydd â gwahanol grefyddau a chredoau.

NOD AC EGWYDDORION

Prif nod y polisi yw sicrhau fod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o arwyddion radicaleiddio ac iddynt oresgyn y gred nad yw hwn yn fater a all ddigwydd yma yng Nghymru a'n bod yn cyd-weithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau fod ei'n disgyblion yn cael eu diogelu rhag niwed.

ADDYSGU TRWY'R CWRICWLWM

Y mae cwricwlwm yr ysgol yn hyrwyddo parch, goddefgarwch ac amrywiaeth. Y mae disgyblion yn cael eu hannog i rannu eu barn a'u safbwyntiau ac yn sylweddoli fod ganddynt yr hawl i gredoau gwahanol unigol ac na ddylid defnyddio'r rhain i ddylanwadu ar eraill.

DEFNYDD O'R WE

Y mae disgyblion yn cael eu hatgoffa yn rheolaidd yng nghyswllt cadw eu hunain yn ddiogel ar y we trwy sesiynau o fewn gwersi Gorwelion, TGCh a phynciau eraill, yn ogystal â chyflwyniadau gan asiantaethau allanol.

https://www.thinkuknow.co.uk/

http://www.schoolbeat.org/en/teachers/safety/

Y maent yn cael eu hannog i chwilio am gymorth oedolyn os ydynt yn bryderus neu wedi eu heffeithio yng nghyswllt deunydd y maent un ai wedi ei weld neu ei glywed ar y we.

Y mae Ysgol Tryfan yn sicrhau fod ein disgyblion yn ddiogel rhag deunydd eithafol a therfysgol pan yn defnyddio y rhyngrwyd yn yr ysgol trwy ddefnyddio hidlwyr diogel sydd yn atal deunydd amhriodol trwy CYNNAL.

HYFFORDDIANT STAFF

Bydd yr ysgol yn sicrhau fod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant priodol megis Prevent / Channel / Wrap i godi ymwybyddiaeth sylfaenol.

Bydd unrhyw aelod newydd o Staff yn derbyn yr hyfforddiant fel rhan o'u cyfnod anwytho.

Isod ceir dolen i ddeunyddiau Channel.

http://course.ncalt.com/Channel_General_Awareness/01/index.html

Y BROSES GYFEIRIO

Er nad oes achos o radicaleiddio wedi digwydd yn Ysgol Tryfan, y mae'n holl bwysig ein bod yn wyliadwrus ac yn ymwybodol o faterion sydd yn effeithio ein cymuned a'n hardal leol trwy gadw cysylltiad a gweithio mewn partneriaeth gyda asiantaethau eraill megis yr Heddlu. Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd.

Y mae aelodau Staff yr Ysgol yn ymwybodol eu bod i gyfeirio unrhyw bryderon trwy'r broses gywir (trwy Mrs Eleri Wyn Roberts, Person Dynodedig Amddiffyn Plant yr Ysgol).

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Gweler Atodiad 1 am ddiffiniadau a dangosyddion yng nghyswllt radicaleiddio.

ADOLYGU POLISI

Caiff Polisi Ysgol Tryfan ar y Polisi Atal Radicaleiddio ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r adolygiad polisi cyffredinol ar Amddiffyn a Diogelu Plant.

Cafodd y Polisi hwn ei gadarnhau gan y Corff Llywodraethol yn 2016

Arwyddwyd ..... Cadeirydd y Llywodraethwyr Dyddiad: .....

Caiff y polisi hwn ei adolygu ar neu cyn y dyddiad canlynol: 2017

Atodiad 1

Diffiniadau a Dangosyddion

- Caiff radicaleiddio ei ddiffinio fel y weithred neu'r broses o wneud unigolyn yn fwy radical neu o blaid newidiadau sylfaenol yng nghyswllt amodau gwleidyddol, economaidd neu gymdeithasol, sefydliadau neu feddylfryd.
- Caiff eithafiaeth ei ddiffinio fel arddel safbwyntiau gwleidyddol neu grefyddol eithafol.
- Ceir sawl ymddygiad all ddynodi bod plentyn mewn perygl o gael ei radicaleiddio neu fod yn agored i safbwyntiau eithafol. Mae'r rhain yn cynnwys;

    - Treulio amser cynyddol yng nghwmni eraill sydd dan amheuaeth o fod yn eithafwyr.
    - Ymddygiad o ddydd i ddydd yn dod yn gynyddol gael ei ganoli ar ideoleg eithafol, grŵp neu achos.
    - Colli diddordeb mewn ffrindiau a gweithgareddau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r ideoleg, grŵp neu achos eithafol.
    - Meddu ar ddeunyddiau neu sumbolau eraill sy'n gysylltiedig â'r achos.
    - Ceisio recriwtio eraill i'r grŵp/achos.
    - Cyfathrebu gyda eraill sy'n awgrymu uniaethu gyda grŵp, achos neu ideoleg.
    - Defnyddio enwau sarhaus am grŵp arall.
    - Cynnydd mewn digwyddiadau ble ceir rhagfarn yn cael eu cyflawni gan yr unigolyn hwnnw – gall y rhain gynnwys:

        - Ymosodiad corfforol neu
        - Ymddygiad pryfoclyd
        - Difrod i eiddo
        - Galw enwau yn sarhaus
        - Bod yn berchen ar ddeunyddiau sy'n hybu neu dangos rhagfarn
        - Gwrthod cydweithredu galw enwau neu sarhau rhagfarnllyd
        - Ffurfiau amhriodol o gyfarch
        - Ceisio recriwtio i sefydliadau seiliedig ar ragfarn
        - O blaid neu'n cefnogi trais tuag at eraill

DIOGELU

Nid yw diogelu plant a phobl ifanc rhag radicaleiddio yn ddim gwahanol o'i gymharu a'u diogelu rhag mathau eraill gamdriniaeth.

Mae'r dangosyddion ar gyfer bod yn agored i radicaleiddio yn cynnwys:

- Tensiynau teuluol
- Ymdeimlad o unigrwydd
- Ymfudo
- Pellter o'r dreftadaeth ddiwylliannol
- Profiad o hiliaeth neu wahaniaethu
- Teimlad o fethiant, hunan-barch isel
- Ymdeimlad o anghyfiawnder